Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl:	**Gwaith Cymdeithasol**
Lleoliad:	**Gweithio Ystwyth**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**
Rhif Swydd:	**BG03498**
Cyflog:	**Gradd 8 (£36,298 to £40,478 per annum)**
Oriau:	**37**
Contract:	**Parhaol**

Hysbyseb Law

Nid yw'n gyfrinach, gyda gwreiddiau dwfn mewn diwydiant trwm a man geni'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, fod gan Blaenau Gwent a'i phobl dreftadaeth gymunedol falch.
Wrth gwrs nid oes dim yn aros yr un fath.
Mae diwydiant trwm yr ardal wedi mynd a gall y sir yn awr ymfalchïo yn y gofodau gwyrdd hardd sy'n ffurfio cefnlen y daith fer o un ochr o'r fwrdeistref i'r llall. Yn yr un modd, mae ystyr 'cymuned' wedi newid ac addasu i adlewyrchu y newid demograffig yn y boblogaeth.
Ond, yn ei graidd, mae Cyngor Blaenau Gwent yn parhau i fod yn ymroddedig i'r weledigaeth o fod yn 'lle gwell i fyw a gweithio'. Gyda'n gilydd, sylweddolwn fod gennym ymrwymiad i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol; rydym eisiau i'n plant a'u teuluoedd gael cyfleoedd i fwynhau dyfodol cyffrous ac uchelgeisiol.
Rydym felly'n edrych am weithwyr cymdeithasol creadigol a gyda chymhelliant uchel i ymuno â'n Hadran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.
Mae gennym swyddi parhaol a chyfnod sefydlog yn ein timau Bro. Mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys asesu a gofal a chefnogi cynllunio ar gyfer plant y bernir eu bod angen cymorth, diogelu neu dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r timau bro yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd o enedigaeth i 14 oed a chaiff ein hymarfer ei yrru gan ffocws ar ddeiliannau, cryfderau a rheolaeth risg hyderus.
Croesawn geisiadau gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol (yn disgwyl cymhwyster), gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gweithwyr cymdeithasol profiadol. Bydd pawb a benodir yn manteisio o amrywiaeth o gefnogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu; cyflog cystadleuol; cynllun gwobrwyo staff; 25 diwrnod o wyliau blynyddol (yn cynyddu i 30 ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth parhaus) ynghyd â gwyliau statudol a'r dewis i 'brynu' gwyliau blynyddol ychwanegol; trefniadau gweithio hyblyg a gweithio ystwyth, wedi'i anelu i hyrwyddo cydbwysedd gwaith-bywyd.
Mae ein staff yn manteisio o'r cyfle i fynychu sesiynau hyfforddiant byr wythnosol gyda hwyluswyr mewnol ac allanol. Mae'r ystod pynciau yn amrywiol. Mae ein tîm datblygu gweithle hefyd yn cydlynu pecyn amrywiol o hyfforddiant fwy dwys, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad rheolaidd gyda staff. Rydym yn cynnal gweithdai Polisi a Pherfformiad

chwarterol, sy'n dod â'r adran gyfan ynghyd i gynorthwyo rhwydweithio, rhannu dealltwriaeth a datblygu gwasanaeth.
Bydd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, yn dechrau ar eu blwyddyn gyntaf o ymarfer, yn cael llwyth achos wedi'i warchod. Byddant hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai, hyfforddiant, mentora a chymorth cymheiriaid a goruchwyliaeth, a hwylusir gan ein tîm datblygu gweithle. Y nod yw eu helpu i addasu i fywyd fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig yn ogystal â'u paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu datblygiad proffesiynol.
Mae'r holl staff yn cael goruchwyliaeth ffurfiol, reolaidd o leiaf unwaith y mis, ac yn amlach os oes angen.
Beth mae hyn yn ei olygu i'n tîm staff? Mewn arolwg adborth staff, dywedodd 98% o ymatebwyr eu bod yn teimlo cymhelliant i wneud eu swydd; 94% yn teimlo fod ganddynt lais am sut y cyflawnant eu swydd a 88% yn mynegi bodlonrwydd swydd. Teimlai 89% o'r ymatebwyr fod eu rheolwr llinell yn gefnogol i'w datblygiad proffesiynol. Yn olaf, mae 97% o'r ymatebwyr yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi am y gwaith a wnânt.
Mae'n amser heriol ond cyffrous i fod yn gweithio mewn gofal cymdeithasol. Byddem wrth ein bodd pe byddech yn dod ac ymuno â ni.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol

Dyddiad Cau: **8th Mehefin 2023**

Dyddiad Cyfweliadau: **16th Mehefin 2023**